# WILLIAMS, WILLIAM (1748 - 1820), clerigwr, ac un o ragredegwyr mudiad yr ysgol Sul yng Nghymru

**Enw:** William Williams
**Dyddiad geni:** 1748
**Dyddiad marw:** 1820
**Rhiant:** Ann Williams
**Rhiant:** Rhys Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr, ac un o ragredegwyr mudiad yr ysgol Sul yng Nghymru
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Daniel Williams

mab Rhys ac Ann Williams, Glanwenlais, Cil-y-cwm, Sir Gaerfyrddin. Ordeiniwyd ef yn ddiacon gan esgob Tyddewi, 1 Medi 1771, ac yn offeiriad 14 Awst 1774. Bu'n gurad yng Nghaerfyrddin, ond fel curad S. Gennys, Cernyw, yr adwaenir ef. Bu'n gohebu â Thomas Charles o'r Bala ar fater addysgu Cymru. Caif y credyd o gychwyn ysgol Sul yn nh Dafydd Elias, Brynteg, Cil-y-cwm, a cheir sicrwydd iddo wneuthur cais (oddeutu 1781) i sefydlu ysgolion Sul yn Aberystwyth, Aberdyfi, a Machynlleth. Bu yn ei fryd sefydlu yng Nghymru gymdeithas ar gynllun S.P.C.K. Bu farw 12 Mai 1820, a gorffwys ei weddillion yng Nghil-y-cwm.

## Awdur

**Y Parchedig Daniel Williams**, (1878 - 1968)

## Ffynonellau


*A History of Carmarthenshire*, ii, 257

James Morris, *Hanes Methodistiaeth Sir Gaerfyrddin* (1911), 160

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908), ii, 115-9, a chwilier y fynegai

*Methodistiaeth Cymru* (1851–6), ii, 468-9


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821250


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu